Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Biopsi Ysgyfaint dan Arweiniad CT



**Dyddiad ac Amser y Biopsi: ..........................................................**

**Lleoliad derbyn: ........................................................................**

**Cyfarwyddiadau dim drwy'r geg: ...............................................**

**Pam y cefais gyngor i gael y prawf hwn?**
Mae eich ymgynghorydd wedi gwneud cais am fiopsi nodwydd ar eich cyfer, i'w helpu i ganfod achos y cysgod yn eich prawf pelydr-x o'r frest. Diben y driniaeth hon yw cael darn bach o feinwe'r ysgyfaint ar gyfer dadansoddiad yn y labordy patholegol. Mae'r math hwn o fiopsi yn llwyddiannus fel arfer wrth benderfynu p'un a yw'r cysgod ar y prawf pelydr-x o'r frest oherwydd canser yr ysgyfaint neu beidio. Fodd bynnag, ni fydd canlyniad negyddol o'r biopsi o reidrwydd yn eithrio'r posibilrwydd hwn.

**Ble gwneir hyn?**
Cewch eich derbyn i Ysbyty Brenhinol Gwent ar ddiwrnod y prawf. Caiff y driniaeth ei pherfformio yn adran CT gan Radiolegydd.

**Beth mae hyn yn ei gynnwys?**
Mae'r driniaeth yn cynnwys glanhau'r croen, chwistrellu ychydig o anesthetig yn lleol ac wedyn mewnosod nodwydd biopsi bach yn y darn o ysgyfaint sydd dan sylw. Efallai bydd angen mewnosod y nodwyd mwy nag un tro.

Ar ôl cael sampl boddhaol, byddwch yn dychwelyd i’r ward/uned llawdriniaethau dydd i gael eich monitro am 4 awr.

**A oes unrhyw gymhlethdodau?**
Mae hon fel arfer yn driniaeth seml, ond mae’n bosib cael cymhlethdodau.

1. Bydd nifer fach o gleifion yn datblygu cwymp yr ysgyfaint oherwydd awyr yn gollwng o'r ysgyfaint i'r frest (niwmothoracs). Caiff hyn ei nodi fel arfer ar y prawf pelydr–X o’r frest cyn i chi gael eich rhyddhau o’r ysbyty. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd angen triniaeth, er y gallwch gael cyngor i aros yn yr ysbyty dros nos i'ch monitro ymhellach. Yn anaml iawn, os yw’r niwmothoracs yn fawr, neu os oes symptomau eraill gennych, gall fod angen cael triniaeth. Gall hyn gynnwys rhoi tiwb draenio bach yn y frest ac aros yn y r ysbyty am gyfnod byr.

2. O bryd i’w gilydd, gall cleifion pesychu gwaed ar ôl y driniaeth. Bydd hyn yn gwella fel arfer heb unrhyw driniaeth ac ni fyddai o reidrwydd yn gohirio eich rhyddhad o’r ysbyty. Mae gwaedu trwm yn ddigwyddiad hynod brin.

**Beth gallaf ei wneud wrth ddychwelyd adref?**
Dylech gael gorffwys am y 24 awr nesaf. Dylech osgoi straen drom a chodi pethau trwm yn y 48 awr nesaf.

Os oes unrhyw anghysur o safle’r biopsi, gallwch gymryd poenladdwr ysgafn megis Paracetamol. Gallwch dynnu’r plastr bach 24 awr ar ôl cael y biopsi.

Os byddwch yn pesychu mwy nag ychydig o lwyau te o waed, dylech ddod i Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Gwent.

Os bydd mwy o ddiffyg anadl nag y mae'n arferol i chi, neu os oes poen difrifol yn eich brest o fewn 24-48 awr ar ôl dychwelyd adref, mae’n rhaid ichi fynd i Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Gwent.

Byddwn yn cysylltu â chi o fewn dwy wythnos i ddychwelyd y canlyniadau i’ch meddyg.

**Rhifau Cyswllt:-**

Nyrs Arbenigol Clinigol
Helen Howison, Samantha Williams a Rebecca Weston-Thomas
Rhif Ffôn: - 01633 – 656149 neu 01633 238449

**RCC y Claf:**

**Rhestr wirio ar gyfer Biopsi dan arweiniad CT i'w chwblhau yn y clinig neu yn ward y claf. I'w chwblhau gan staff a'i chadw yn y nodiadau.**

A gafwyd cydsyniad y claf? Do [ ] Naddo [ ]

A drafodwyd dim drwy'r geg? Do [ ] Naddo [ ]

A yw'r claf yn cymryd moddion gwrthgeulol? Ydy [ ] Nac ydy [ ]

Pa feddyginiaeth? ______________________________________________

- Os ydy, rhowch gyfarwyddiadau manwl am stopio/ ailddechrau

  ______________________________________________

  ______________________________________________

A oes angen cludiant? Oes [ ] Nac oes [ ]

- Os oes, pwy fydd yn archebu'r cludiant?

  ______________________________________________

A oes angen derbyn i'r ysbyty dros nos? Oes [ ] Nac oes [ ]

- Os oes, a drefnwyd derbyn i'r ysbyty?

  ______________________________________________

  ______________________________________________

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**